Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Asesydd Interim Diogelu Amgylchedd Cymru

Dyddiad cau : 7 Rhagfyr 2023 am 16:00

Cynnwys

	Tudalen
Gwneud cais	**2-4**
Atodiad A: Rôl Dirprwy Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd	**5-6**
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Dirprwy Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd	**7**
Atodiad C: Y broses ddethol	**9-10**

Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb yn swydd Dirprwy Asesydd Diogelu Amgylchedd Cymru. Mae manylion ac amcanion y rôl a rhagor o wybodaeth am y broses ddethol i'w gweld yn yr Atodiadau.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru: Penodiadau Cyhoeddus - Llywodraeth Cymru (Cais) (tal.net).

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd y Dirprwy Asesydd Interim, ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y byddwch yn gwneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen i gofrestru ar system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych wedi'u hanfon, drwy'ch cyfrif cofrestredig.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn cael gweld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros wneud cais' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Y datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol ac unrhyw feini prawf dymunol sydd i'w gweld ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio pa ran y gwnaethoch chi ei chwarae wrth gyflawni amcan penodol. **Gallwch hefyd helpu'r panel dethol drwy ddangos yn glir pa dystiolaeth sy'n berthnasol i faen prawf penodol. Mae'n arferol defnyddio paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf.**

Peidiwch â gadael i'ch datganiad personol fynd yn fwy na dwy dudalen o hyd. Gallai'ch cais gael ei wrthod os bydd yn hirach na'r terfyn hwnnw.

CV
Dylech sicrhau bod eich CV yn cynnwys manylion byr eich swydd bresennol neu ddiweddaraf a'r dyddiadau y gwnaethoch ymgymryd â'r rôl honno, yn ogystal ag unrhyw gymwysterau sy'n berthnasol i'r rôl. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol a fu gennych yn y gorffennol neu sydd gennych ar hyn o bryd.

Geirda
Rhowch enwau dau ganolwr (cyflogwr a phersonol). Byddwn yn cysylltu â nhw os byddwch yn llwyddiannus.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	7 Rhagfyr 2023 am 16:00
Llunio rhestr fer:	TBC
Cyfweliadau:	TBC

Datganiad am Amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau o fyrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu cymdeithas Cymru – pobl o bob cefndir – er mwyn helpu'r byrddau i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog

ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau oddi wrth bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys menywod, pobl o dan 30 oed, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu anablu pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod, yn gyffredinol, yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl. Os hoffech wneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy anfon e-bost i PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru er mwyn rhoi gwybod iddo.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Manylion Cyswllt:
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Yr Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl y Dirprwy Asesydd Interim, cysylltwch â thîm Llywodraethu Amgylcheddol Llywodraeth Cymru drwy Environmental.Governance@llyw.cymru

Os hoffech ragor o gymorth i ymgeisio am y swydd, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Atodiad A

Penodi Dirprwy Asesydd Interim Diogelu Amgylchedd Cymru

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau
Ochr yn ochr â'r Asesydd Interim, bydd y Dirprwy Asesydd Interim yn gyfrifol am roi trefniadau llywodraethu amgylcheddol interim ar waith yng Nghymru.

Bydd y Dirprwy yn cefnogi'r Asesydd Interim i oruchwylio'r broses gwyno interim. Bydd y gwaith yn cynnwys bwrw golwg dros y sylwadau a gyflwynir, rhoi blaenoriaeth iddynt yn ôl eu difrifoldeb a faint o frys sydd yn eu cylch, a pharatoi asesiadau am sut y mae'r gyfraith yn cael ei gweithredu pan fo materion amgylcheddol difrifol yn codi.

Mae angen y gallu i bwyso a mesur tystiolaeth gymhleth mewn cyfnod byr o amser, gan ddod i gasgliad rhesymegol am ddifrifoldeb cwyn. Yn ganolog i'r rôl y mae'r angen i arfer doethineb barn, gan roi ystyriaeth briodol i fframwaith deddfwriaethol cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, a hefyd yr egwyddorion sy'n rhan annatod o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a'r gallu i ysgrifennu adroddiadau am sut y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei gweithredu yng Nghymru.

Bydd yr Asesydd Interim a'r Dirprwy Asesydd Interim yn cael eu cefnogi gan Dîm Ysgrifenyddiaeth bach a fydd yn cynnwys dau o swyddogion Llywodraeth Cymru.

Bydd prif ddyletswyddau'r Dirprwy Asesydd Interim yn cynnwys:

- Goruchwylio'r broses lywodraethu amgylcheddol interim ar gyfer Cymru;
- Fetio cwestiynau a sylwadau a gyflwynir a'u hailgyfeirio at sianeli mwy priodol os bydd angen, gan gynnwys cysylltu â chyrff llywodraethu amgylcheddol eraill yn y DU.
- Ymgynghori ag arbenigwyr perthnasol i benderfynu pa mor ddifrifol yw'r mater o dan sylw a faint o frys sydd yn ei gylch.
- Ysgrifennu adroddiadau am sut y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio yng Nghymru
- Rhoi adborth i bartïon â diddordeb, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, Aelodau'r Senedd a rhanddeiliaid.
- Ymgysylltu ag eraill er mwyn pwyso a mesur y dull gweithredu interim a fydd wedi cael ei fabwysiadu.
- O bosibl, mynd i wrandawiadau a gynhelir gan bwyllgorau perthnasol y Senedd os bydd angen.
- Trosglwyddo'i rôl i'r model llywodraethu amgylcheddol parhaol a fabwysiedir yng Nghymru ar ôl i'r model hwnnw gael ei sefydlu.

Er mwyn arfer y swyddogaethau hyn, bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos eu bod yn barod i weithio mewn ffordd hyblyg ac i drefnu bod llinell ffôn a chysylltiad â'r

rhyngrwyd ar gael iddynt. Byddant yn gweithio gartref yn bennaf, er y bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fynd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb o bryd i'w gilydd.

Manyleb y Person
Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos drwy'ch CV a'ch Datganiad Personol fod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

Profiad a gwybodaeth dechnegol			
Y Meini Prawf	**Asesir yn y CV**	**Asesir yn y datganiad personol**	**Asesir yn y cyfweliad**
Hanfodol			
Wedi ymgymhwyso'n weithiwr cyfreithiol proffesiynol, er enghraifft, cyfreithiwr, bargyfreithiwr neu'n weithredwr cyfreithiol, ac yn meddu ar o leiaf 2 flynedd o brofiad ar ôl cymhwyso; neu fod gennych radd Meistr ôl-raddedig yn y gyfraith neu PhD yn y gyfraith neu faes cysylltiedig gydag o leiaf 2 flynedd o brofiad perthnasol ar ôl cymhwyso.	Gwneir	Na	Na
Gwybodaeth am ddeddfwriaeth bresennol Cymru sy'n ymwneud â'r amgylchedd, sef Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Datblygu Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'r egwyddorion Datblygu Cynaliadwy sy'n sail i'r fframwaith deddfwriaethol a gweithredol yng Nghymru.	Gwneir	Gwneir	Gwneir
Dymunol			
Profiad o ysgrifennu adroddiadau sy'n archwilio'r gyfraith.	Gwneir	Gwneir	Na
Dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau presennol Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â'r gyd-ddibyniaeth rhwng cyrff cyhoeddus eraill Cymru mewn perthynas â materion amgylcheddol.	Gwneir	Gwneir	Na

Gwybodaeth am gyfraith amgylcheddol ehangach yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac am sut mae'r corff hwnnw o gyfraith yn perthyn i gyfraith Cymru.	Gwneir	Gwneir	Na

Ymddygiadau			
Y Meini Prawf	**Asesir yn y CV**	**Asesir yn y datganiad personol**	**Asesir yn y cyfweliad**
Hanfodol			
Y gallu i bwyso a mesur materion cymhleth a dod i gasgliadau rhesymegol	Na	Gwneir	Gwneir
Sgiliau cyfathrebu cryf, a'r gallu i gyfleu materion cymhleth yn glir i bobl nad ydynt yn arbenigwyr.	Na	Gwneir	Gwneir
Yn deall egwyddorion bywyd cyhoeddus ac wedi ymrwymo iddynt (Egwyddorion Nolan).	Na	Gwneir	Gwneir
Dealltwriaeth glir o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymrwymiad iddynt a pharodrwydd i herio arferion gwahaniaethol.	Gwneir	Gwneir	Gwneir
Dymunol			
Sgiliau rhyngbersonol cryf a'r cadernid a'r hygrededd i reoli'r berthynas â Gweinidogion, Aelodau'r Senedd, rhanddeiliaid a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, gan wneud hynny mewn ffordd effeithiol.	Na	Gwneir	Gwneir

Y Gymraeg
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn bwysig datblygu a hybu dwyieithrwydd wrth benodi i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac mae'n croesawu ceisiadau oddi wrth ymgeiswyr sy'n gallu dangos eu bod yn gallu gweithio yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r rhestr a ganlyn o ofynion iaith yn asesiad gwrthrychol gan y corff recriwtio o'r sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol i ymgymryd â dyletswyddau'r swydd benodol hon.

Sgiliau Cymraeg: Dymunol

Darllen: Yn gallu darllen a deall ambell air ac ymadrodd syml

Ysgrifennu: Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd

Deall: Yn gallu deall rhannau o sgwrs sylfaenol

Siarad: Yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Ar draws y DU / Lleoliad Gweithio Hyblyg
Ymrwymiad Amser:	O leiaf 2 ddiwrnod y mis
Hyd y penodiad:	3 blynedd a phosibilrwydd o estyniad
Tâl cydnabyddiaeth:	**£375 (cyfradd ddyddiol)**, ynghyd â chostau teithio a chostau rhesymol eraill o fewn terfynau rhesymol

Pwy sy'n gymwys

Ni fydd ceisiadau oddi wrth yr unigolion a ganlyn yn cael eu hystyried:

- Aelodau presennol y Senedd
- Pobl sy'n cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd
- Pobl sy'n cael eu cyflogi gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd

Sylwer y bydd gofyn i'r sawl a benodir fodloni gofynion gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn i'r penodiad gael ei gadarnhau.

Gwrthdaro Buddiannau

Pan fyddwch yn gwneud cais, bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â rôl a chyfrifoldebau Dirprwy Asesydd Interim, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd gofyn hefyd ichi ddatgan y buddiannau hynny ar gofrestr sydd ar gael i'w gweld gan y cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd y dewisir rhoi cyfweliad iddo. Bydd y gwiriadau hynny'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn ystod y cyfweliad am ffrwyth yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy hynny.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd yn ofynnol i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Mae'r ddogfen honno i'w gweld yma:

https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau'r Mesurau Interim ar gyfer Diogelu Amgylchedd Cymru

Mae'r Mesurau Interim ar gyfer Diogelu Amgylchedd Cymru yn cynnig ffordd i'r cyhoedd godi cwestiynau a chyflwyno sylwadau am sut y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio yng Nghymru. Maent yn darparu hefyd i'r materion hynny gael eu hystyried gan Asesydd Interim, a fydd yn rhoi gwybod i Weinidogion Cymru a yw'r materion a godir yn rhai dilys ai peidio, ac yn gwneud argymhellion am unrhyw gamau y bydd yn ystyried bod angen eu cymryd.

Mae'r mesurau interim yn rhai anstatudol. Eu rôl yw cadw golwg effeithiol ar sut y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei gweithredu yng Nghymru tra bo trefniadau statudol newydd yn cael eu rhoi ar waith ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Dyma brif ddibenion y rôl:

- goruchwylio sut y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio yng Nghymru;
- ystyried materion systemig sy'n gysylltiedig â sut y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio neu'n cael ei gweithredu yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Cylch Gorchwyl sy'n ymwneud â gweithredu'r Mesurau Interim ar gyfer Diogelu Amgylchedd Cymru: Cylch gorchwyl: https://www.llyw.cymru/asesydd-interim-diogelur-amgylchedd-cymru

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CVs a datganiadau personol yr ymgeiswyr i benderfynu pwy, yn ei farn ef, sy'n bodloni gofynion y rôl orau a phwy ddylai gael ei wahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu'n llwyr ar yr wybodaeth yn eich CV a'ch datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen. Dylech wneud yn siŵr eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cynaliadwyedd Amgylcheddol Llywodraeth Cymru a bydd arno hefyd ddau aelod annibynnol.

Dyma enwau'r rhai a fydd ar y panel cyfweld:

- Claire Bennett, Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Amgylcheddol (Llywodraeth Cymru)
- Dr Nerys Llewelyn Jones, Asesydd Interim Diogelu Amgylchedd Cymru
- I'w gadarnhau [enw] (Annibynnol)

Bydd sifft cychwynnol o'r ymgeiswyr yn cael ei gynnal ar ôl y dyddiad cau. Nid yw dyddiadau'r cyfweliadau wedi cael eu cadarnhau eto ac maent yn debygol o gael eu cynnal yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd. Mae'n bosibl y bydd darpariaeth ar gyfer cyfweliadau hybrid/rhithiol os gwneir cais i'r perwyl hwnnw.

Yr unig ymgeiswyr y bydd y panel yn dewis eu cyfweld fydd y rheini a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf yn adran manyleb y person. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn **bodloni meini prawf gofynnol y swydd**, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i nodi eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu'r cyfweliad ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau amser yn yr amserlen benodi neu oherwydd na fydd y panel dethol ar gael.

Fe gewch e-bost oddi wrth ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a fyddwch wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni meini prawf** y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr a fydd, ym marn y panel, yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a nhw fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Efallai y bydd y Gweinidog yn dewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hynny cyn gwneud penderfyniad. Os bydd yn dewis gwneud hynny, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr yng nghwmni cadeirydd y panel neu gynrychiolydd a fydd wedi'i enwebu ganddi. Bydd ychydig o amser yn

mynd heibio rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad terfynol ar bwy i'w benodi. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi cael cyfweliad yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n **Ddirprwy Asesydd Interim Diogelu Amgylchedd Cymru**, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan benodi Llywodraeth Cymru. Rydym yn sylweddoli eu bod yn cymryd cryn amser ac ymdrech i ymgeisio am swyddi a bod cael adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn rhoi manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef/â hi i gael adborth am eich cyfweliad a'ch cais, os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Sylwer ei bod yn bosibl y penodir ar sail cais ysgrifenedig a chyfweliad anffurfiol os dim ond un ymgeisydd fydd yn cyrraedd y rhestr fer.

Cwestiynau
Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â
PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

Os nad ydych yn hollol fodlon
Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, anfonwch e-bosti at PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.
Neu gallwch ysgrifennu at: Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus,
G/08, 1 Horse Guards Road, Llundain SW1A 2HQ.